Senedd Cymru
**Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion**

# Plant a phobl ifanc sydd ar yr ymylon:

## Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu

Hydref 2024



Lluniwyd yr adroddiad hwn gan Dîm Ymgysylltu â Dinasyddion y Senedd ar gyfer y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg.
© Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2024 Gellir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw ffurf neu gyfrwng cyhyd ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol neu ddifrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

# Cynnwys


**1. Crynodeb o'r gwaith ymgysylltu ... 3**

Cefndir ... 3

Amcanion ... 3

Methodoleg ... 4

Cyfranogwyr ... 4

Ystyriaethau moesegol ... 4

Prif ganfyddiadau ... 4

**2. Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu ... 6**

Y rhai sy'n agored i niwed ... 6

Gangiau troseddol yn targedu ac yn dylanwadu ... 7

Ysgol ... 8

Atebion ... 9

Gwasanaethau cymdeithasol a chymorth ... 9

Atebion ... 11

Yr heddlu a'r gyfraith ... 11

Atebion ... 13

Gadael ... 13

Atebion ... 14

**Atodiad 1: Atebion ... 15**

Ysgol ... 15

Gwasanaethau cymdeithasol ... 15

Plismona ... 15

Gadael ... 16

**Atodiad 2: Cwestiynau cyfweliad ... 17**

**Atodiad 3: Sgript ffilm fer ...** Error! Bookmark not defined.

# 1. Crynodeb o'r gwaith ymgysylltu

Mae'r crynodeb hwn o'r gwaith ymgysylltu yn cynnig trosolwg o gynllun y rhaglen ymgysylltu, y ffordd y'i cyflwynir, a'r canfyddiadau allweddol.

## Cefndir

**1.** Mae'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn cynnal ymchwiliad i blant a phobl ifanc sydd ar yr ymylon, sy'n ymwneud yn gryno â phlant coll a'r rhai sy'n agored i gamfanteisio troseddol.

**2.** Roedd y Pwyllgor yn dymuno clywed yn uniongyrchol gan bobl ifanc sydd wedi dioddef camfanteisio troseddol. Hwylusodd y Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion gyfweliadau â phobl ifanc sydd wedi goroesi camfanteisio troseddol. Mae profiadau'r bobl ifanc wedi'u crynhoi mewn ffilm fer. Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r safbwyntiau a rennir gan y bobl ifanc a gafodd eu cynnwys yn y ffilm fer.

**3.** Cafodd safbwyntiau a phrofiadau'r bobl ifanc eu gwneud yn ddienw a'u portreadu gan actorion mewn ffilm fer. Dangoswyd y ffilm i'r Pwyllgor ar 6 Tachwedd 2024.

**4.** Sylwer bod yr adroddiad hwn a'r ffilm yn cynnwys trafodaethau am gamfanteisio troseddol a chynnwys a allai beri gofid i rai darllenwyr.

## Amcanion

**5.** Amcan y cyfweliadau oedd casglu barn a phrofiadau pobl ifanc a oedd wedi dioddef camfanteisio troseddol yn y gorffennol.

**6.** Casglwyd safbwyntiau i sicrhau bod y rhai â phrofiadau bywyd yn cyfrannu at y rhaglen casglu tystiolaeth, gyda ffocws penodol ar y cylch gorchwyl a ganlyn ar gyfer yr ymchwiliad:

- Natur a graddfa: ledled Cymru ac amrywiadau rhanbarthol (e.e. traddodiadol, cysylltiedig â chyffuriau, rhywiol, ariannol).
- Grwpiau mewn perygl: gan gynnwys profiad o ofal, plant sy'n profi trawma yn y cartref, a rhai grwpiau o blant sy'n wynebu heriau o fewn y system addysg.

- Ymarfer: Dulliau o atal, cydnerthedd cymunedol, ymyriadau cynnar, cymorth a ddarperir a strategaethau ymadael i ddioddefwyr. Materion ymarferol fel rhannu gwybodaeth a chasglu data.

- Pwerau datganoledig a phwerau'r Deyrnas Unedig: Pa mor gydgysylltiedig yw'r rhyngwyneb rhwng polisïau datganoledig a heb eu datganoli fel cyfiawnder troseddol ac ieuenctid. A oes unrhyw densiwn rhwng cyfraith droseddol a diogelu.

## Methodoleg

**7.** Cynhaliwyd cyfweliadau dros y ffôn neu wyneb yn wyneb. Dewisodd y cyfranogwyr y dull cyfweld a oedd fwyaf cyfleus iddyn nhw. Roedd fformat yr ymgysylltu yn y sesiynau gwahanol yn debyg i raddau helaeth ond yn amrywio rhyw fymryn er mwyn diwallu anghenion y cyfranogwyr a hwyluso sgwrs naturiol, ansoddol.

## Cyfranogwyr

**8.** Cafodd pump o bobl ifanc a dau riant o Dde Cymru gyfweliad. Er mwyn sicrhau nad oes modd adnabod cyfranogwyr, ni fydd rhagor o wybodaeth yn cael ei chyhoeddi.

## Ystyriaethau moesegol

**9.** Roedd diogelu'r cyfranogwyr a sicrhau nad oedd modd eu hadnabod yn hollbwysig. Roedd gweithiwr ieuenctid neu weithiwr cymorth yn bresennol gyda phob person ifanc a gymerodd ran yn y cyfweliadau, ac yn rhoi cymorth yn ystod ac ar ôl y cyfweliad. Roedd holl nodiadau'r cyfweliadau'n ddienw er mwyn sicrhau nad oedd modd adnabod y cyfranogwyr, ac edrychodd y cyfranogwr a'i weithiwr cymorth dros allbwn pob cyfweliad i'w gymeradwyo cyn iddo cael ei gynnwys yn yr adroddiad a'r ffilm. Drwy'r broses hon sicrhawyd bod cyfranogwyr yn teimlo'n ddiogel ac yn cael eu cefnogi ar bob cam o'u cyfranogiad.

**10.** Roedd pob dull a ddefnyddiwyd yn y prosiect hwn yn cydymffurfio â'r safonau a nodir yng Nghod Ymddygiad y Gymdeithas Ymchwil i'r Farchnad ac yn cydymffurfio â deddfwriaeth diogelu data a diogelu perthnasol i gynnal preifatrwydd yr holl gyfranogwyr a sicrhau eu bod yn cael ei trin yn foesegol.

## Prif ganfyddiadau

**11.** Mae'r canfyddiadau ymgysylltu yn yr adroddiad hwn yn taflu goleuni ar brofiadau pobl ifanc sydd wedi dioddef camfanteisio troseddol a'r ffactorau a'u gwnaeth yn agored i niwed. Disgrifiodd y cyfranogwyr sut roedd materion

teuluol, fel diffyg cefnogaeth sefydlog gan rieni, tlodi, a bod yn niwrowahanol, yn aml yn eu gadael mewn perygl. Gwnaethant egluro bod plant heb oruchwyliaeth neu strwythur gartref yn dod yn dargedau mwy gweladwy i'r rhai sydd am gamfanteisio arnynt. Er enghraifft, nododd un person ifanc ei bod hi'n hawdd i eraill adnabod plant sy'n 'cael eu gadael ar y strydoedd drwy'r dydd' fel rhai nad yw eu rhieni'n rhoi llawer o sylw neu ofal iddynt.

**12.** Soniodd y bobl ifanc hefyd am sut mae gangiau troseddol yn targedu pobl ifanc sy'n agored i niwed, gan eu tynnu i mewn yn raddol drwy roi ymdeimlad ffug o berthyn. Mae gangiau yn aml yn manteisio anghenion emosiynol, gan weithredu fel 'ffigyrau tadol' neu fentoriaid i blant a allai fod heb gefnogaeth sefydlog. Esboniodd y cyfranogwyr fod y broses yn dechrau gyda thasgau bach a gall gynyddu'n gyflym, gan eu gadael yn gaeth mewn cylch o ddibyniaeth a dyled. Nododd y bobl ifanc hyn eu bod yn 'gaeth' mewn ffordd o fyw a oedd yn cynnig parch a phwrpas iddynt nad oeddent yn ei gael yn unman arall ond a oedd yn eu gadael mewn sefyllfa lle nad oeddent yn gallu dianc oherwydd ofn a bod dan orfod.

**13.** Thema sylweddol arall oedd rôl ysgolion a gwasanaethau cymdeithasol. Roedd ysgolion yn cael eu hystyried yn lleoedd hanfodol ar gyfer sylwi arwyddion cynnar o drafferthion, ond nododd rhai cyfranogwyr y gall cymorth anghyson a mesurau cosbi, fel lleihau amserlenni, wneud pethau'n waeth. Yn aml, roedd diffyg ymddiriedaeth yn y gwasanaethau cymdeithasol; disgrifiodd rhai cyfranogwyr weithwyr cymdeithasol a oedd naill ai'n absennol neu'n methu â darparu'r cymorth a addawyd. Roeddent yn pwysleisio'r angen am wasanaethau mwy dibynadwy wedi'u teilwra, sy'n meithrin ymddiriedaeth dros amser, yn hytrach na dulliau gweithredu tymor byr neu weithdrefnol.

**14.** Ar y cyfan, pwysleisiodd y cyfranogwyr yr angen am gymorth mwy tosturiol, hirdymor gan y gwasanaethau cymdeithasol ac asiantaethau gorfodi'r gyfraith. Roeddent o blaid system sy'n deall eu heriau unigryw ac sy'n cynnig ymyriadau rhagweithiol. Drwy fynd i'r afael â'r meysydd hyn, maent yn credu y gallai llawer o bobl ifanc gael eu hamddiffyn rhag camfanteisio a chael gwell cyfle i fyw bywydau sefydlog, cadarnhaol.

Diolch i bawb a gyfrannodd at y rhaglen ymgysylltu, yn enwedig y bobl ifanc a siaradodd ag aeddfedrwydd ac urddas.

# 2. Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu

Mae'r adran hon yn amlinellu'r themâu allweddol, y safbwyntiau a'r atebion a fynegwyd gan y bobl a gafodd gyfweliad.

**15.** Ar ddiwedd rhai o'r themâu isod, rydym yn cyflwyno casgliad o atebion a awgrymwyd gan gyfranogwyr yn ystod y sesiynau ymgysylltu. Mae'r awgrymiadau hyn yn adlewyrchu creadigrwydd a phryderon y cyfranogwyr. Mae'r holl atebion ar gael yn Atodiad 1.

## Y rhai sy'n agored i niwed

**16.** Mae'r thema hon yn archwilio'r gwendidau sy'n cynyddu'r risg y bydd plant penodol yn cael eu targedu ar gyfer camfanteisio. Daeth ffactorau fel ansefydlogrwydd teuluol, tlodi, bod yn niwrowahanol, a chefnogaeth annigonol gan rieni i'r amlwg fel ffactorau sylweddol sy'n cyfrannu. Tynnodd cyfranogwyr ifanc sylw at yr effaith ddofn y mae deinameg y teulu a phresenoldeb, neu absenoldeb, cyfranogiad rhieni yn ei chael ar y risg i blant. Mynegodd llawer bryderon ynghylch diffyg goruchwyliaeth gan rieni, a oedd yn aml yn gadael plant yn agored i gamfanteisio a dylanwadau negyddol. Disgrifiwyd amgylcheddau lle roedd rhieni, a oedd weithiau'n cael trafferth gyda chamddefnyddio sylweddau neu broblemau iechyd meddwl, yn methu â rhoi'r gofal a'r sylw sydd ei angen. Fodd bynnag, nododd rhai cyfranogwyr hefyd fod eu mamau, yn arbennig, yn gwneud popeth o fewn eu gallu er gwaethaf diffyg adnoddau, gan ddangos nad yw'r holl rieni'n wynebu'r un heriau.

**17.** Nododd un cyfranogwr:

> *"Too many kids are left on the streets all day, putting them in the spotlight. It's the kids out there unsupervised who get noticed. People can tell their parents don't really care."*

**18.** Soniodd cyfranogwr arall am ei brofiad ag ansefydlogrwydd a diffyg gofal yn ystod ei arddegau:

> *"When I was 16, I was put in a hostel. I was responsible for myself but shouldn't have been. I should have been a looked-after child, but social services never helped me. I had all of the responsibilities of being older but none of the freedoms. I had to pay rent, put food in my freezer, I had to keep my room clean, I*

*had to do my washing—that's a lot of responsibility for a 16-year-old. From the age of 16 to 17, I don't remember a day when I wasn't depressed. I took drugs in the hostel, acid, ecstasy, 2CB, I ended up doing sniff in hostel—it was just a bad place for me."*

**19.** Pwysleisiodd y cyfranogwyr nad oedd gan blant yn yr amgylchiadau hyn ddiogelwch a ffiniau hanfodol gartref, gyda fawr ddim atebolrwydd, os o gwbl. Mae'r diffyg strwythur hwn, roeddent yn dadlau, yn ei gwneud yn glir i eraill nad oedd gan y plant hyn oruchwyliaeth a'u bod mewn perygl. Awgrymodd rhai fod angen i wasanaethau cymdeithasol chwarae rhan fwy gweithredol, gydag ymyrraeth gynnar i gefnogi teuluoedd lle y gallai rhieni fod mewn sefyllfa nad ydynt yn gallu rhoi gofal priodol, neu'n lle nad yw rhieni'n fodlon gwneud hynny.

**20.** Gwnaeth rhieni sy'n wynebu anableddau personol a heriau iechyd meddwl, fel ADHD, PTSD, a niwrowahaniaeth, dynnu sylw hefyd at y frwydr barhaus am gymorth. Dywedodd un rhiant:

*"My kids have got ADD and Autism. I've got ADHD and PTSD. I would like the weight lifted off my shoulders, not in a way where someone is gonna carry me but in a way where I'm not begging for support that should have already been in place. My mental health is suffering, which is gonna have a knock-on effect on my children, I feel like a robot, I don't feel like a person." (Rhiant)*

**21.** Yn gyffredinol, roedd yr adborth yn amlygu pa mor bwysig yw rhianta gweithredol o ran rhoi ymdeimlad o sefydlogrwydd ac amddiffyniad i blant, a'r potensial i wasanaethau cymdeithasol fod yn effeithiol ym mywydau'r rhai sydd mewn perygl. Awgrymodd pobl ifanc y gallai dulliau rhagweithiol a thosturiol gan wasanaethau cymorth leihau'n sylweddol y tebygolrwydd y byddai plant yn mynd i sefyllfaoedd camfanteisiol.

## Gangiau troseddol yn targedu ac yn dylanwadu

**22.** Disgrifiodd y bobl ifanc batrwm cyffredin lle mae gangiau troseddol yn targedu ac yn dylanwadu ar bobl ifanc sy'n agored i niwed, gan eu denu'n raddol i fywyd o droseddu. Pwysleisiwyd nad yw'r broses recriwtio hon yn digwydd ar hap ond ei bod yn hytrach yn rhywbeth bwriadol, gan ddibynnu ar ymwybyddiaeth y gang o'r ardal leol a'u gallu i adnabod plant sydd i'w gweld wedi'u hynysu neu heb oruchwyliaeth. Mae aelodau'r gang yn gwylio'r plant hyn dros amser, ac yn asesu pa rai sy'n debygol o fod yn agored i'w dylanwad. Nododd un cyfranogwr:

> *"…it's through…watching and getting to know the kids over time, that's when they make their decision based on the kids where no one's interested in them or nothing. It's all about how you portray yourself, cos if you look vulnerable they'll take a chance."*

**23.** Yn ôl y cyfranogwyr, mae gangiau yn aml yn camfanteisio ar anghenion emosiynol y bobl ifanc hyn, gan gyflwyno eu hunain fel ffigurau tadol neu fentoriaid gofalgar i blant a allai fod heb gefnogaeth deuluol sefydlog. Mae'r ymdeimlad ffug hwn o berthyn a gofal yn denu llawer o bobl ifanc i fywyd mewn gang. Unwaith y byddant yn cymryd rhan, mae'r bobl ifanc yn cael eu tynnu'n ddyfnach drwy dasgau a ffafrau bach, sy'n cynyddu'n gyflym i ddod yn weithgareddau troseddol mwy difrifol. Fel y nododd un unigolyn, mae'r gangiau'n dechrau '*drwy roi rhywbeth i chi… rydych chi'n meddwl ei fod am ddim, ond nid yw hynny'n wir.*' Yn raddol, mae cylch dyled, rhwymedigaethau, a dibyniaeth yn cael ei greu, gan ei gwneud yn fwyfwy anodd i'r person ifanc adael.

**24.** Nododd llawer o gyfranogwyr ifanc eu bod yn teimlo eu bod yn gaeth yn y cylch hwn, gan nodi bod cymryd rhan mewn gang yn rhoi ymdeimlad o barch a phwrpas nad ydynt efallai'n ei gael yn unman arall. Fodd bynnag, wrth iddynt fynd yn ddyfnach ym myd y gang, mae eu hopsiynau'n lleihau, ac yn aml maent yn teimlo eu bod yn rhy ddwfn i gael cymorth. Mae'r sylwadau hyn yn dangos y dulliau soffistigedig y mae gangiau'n eu defnyddio i ddenu a rheoli pobl ifanc sy'n agored i niwed, gan danlinellu'r angen am ymyrraeth gynnar a gwasanaethau cefnogol sy'n mynd i'r afael â'r anghenion emosiynol a chymdeithasol sylfaenol hyn.

## Ysgol

**25.** Cododd rôl ysgolion o ran nodi a mynd i'r afael â myfyrwyr sy'n agored i niwed fel thema ganolog yn y cyfweliadau. Pwysleisiodd y cyfranogwyr bwysigrwydd hanfodol ymyrraeth gynnar gan addysgwyr, sydd yn aml yn y sefyllfa orau i sylwi ar newidiadau o ran ymddygiad sy'n arwydd o risgiau allanol. Pwysleisiwyd nad sefydliadau addysgol yn unig yw ysgolion, ond hefyd amgylcheddau allweddol lle gellir sylwi materion sy'n ymwneud â diogelwch a lles a mynd i'r afael â hwy. Eglurodd un cyfranogwr,

> *"You have to look for it in school, it all stems from school…You'll definitely see changes if there's something going on outside, so that's the best place to pick it up."*

**26.** Nododd y cyfranogwyr, fodd bynnag, fod effeithiolrwydd ymyrraeth yn dibynnu ar y dull a ddefnyddir gan yr ysgol ac athrawon unigol. Nodwyd bod

ysgolion yn amrywio'n fawr o ran lefel eu hymrwymiad i gefnogi myfyrwyr sydd mewn perygl. Mewn rhai achosion, mae ysgolion yn rhoi gwybod i awdurdodau am bryderon yn gyflym, a all greu ymdeimlad o ofn a diffyg ymddiriedaeth ymhlith myfyrwyr. Fel y dywedodd un cyfranogwr:

> *"It all comes down to the teacher... You need the right kind of teacher, not just anyone who's been hired, you need a special team."*

**27.** Mater arall a gododd dro ar ôl tro oedd yr arfer o osod myfyrwyr sy'n cael trafferth ar amserlenni llai, ac roedd rhai cyfranogwyr yn teimlo bod hyn yn eu gwneud yn fwy agored i berygl. Pan fydd pobl ifanc allan yn y gymuned tra bod eu cyfoedion yn yr ysgol, gallant gael eu targedu'n haws gan y rhai sy'n chwilio am bobl sy'n agored i gael eu recriwtio. Fel y nododd un unigolyn,

> *"Reduced timetables got to stop, even if those kids have to go to special lessons or do work experience or learn skills or something, just to chuck them on the street and say, 'Fuck you, fend for yourself,' that's a...joke!"*

**28.** Mae sylwadau'r bobl ifanc yn awgrymu, er bod gan ysgolion y potensial i gael rôl amddiffynnol, y gallai rhai polisïau ac arferion gael effaith anfwriadol o roi myfyrwyr sy'n agored i niwed mewn mwy o berygl. Roeddent yn galw am ddulliau mwy tosturiol a chefnogol mewn ysgolion, yn enwedig ar gyfer y myfyrwyr hynny a allai fod fwyaf agored i ddylanwadau allanol.

### Atebion

- Lleihau'r ddibyniaeth ar arferion fel amserlenni llai, a allai gadael pobl ifanc yn fwy agored i risgiau allanol.

- Hyfforddi staff ysgol i adnabod ac ymateb yn effeithiol i arwyddion o gamfanteisio, gan alluogi ymyriadau amserol a phriodol.

## Gwasanaethau cymdeithasol a chymorth

**29.** Mynegodd y cyfranogwyr bryderon sylweddol am effeithiolrwydd y systemau cymorth presennol ar gyfer pobl ifanc sy'n agored i niwed, gan bwysleisio y gall dulliau anghyson neu amhersonol rwystro yn hytrach na helpu. Disgrifiodd llawer o bobl brofiadau o gael eu hesgeuluso neu ddiffyg cefnogaeth gan wasanaethau cymdeithasol, gyda rhai yn teimlo bod gweithwyr cymdeithasol yn canolbwyntio mwy ar gyflawni rhwymedigaethau biwrocrataidd nag ar gynnig cymorth ystyrlon.

**30.** One young person shared a troubling encounter with their social worker:

> *"My social worker tried to gaslight me into saying that my mother hit me and my brother. My mum's never laid hands on me, and I'm not having my little brother going into care cos a [social worker] doesn't know how to do her job."*

**31.** I rai rhieni, roedd rhyngweithio â gwasanaethau cymdeithasol yn gwaethygu eu hanawsterau yn hytrach na'u gwella. Soniodd un rhiant am effaith y profiad o ffoi rhag trais domestig:

> *"I've been through domestic violence where both my children were affected. I did everything that the people from the system, Police and Social Services, told me to do. We were in a hostel for about four months—it's the worst situation to put two children in. We were then put into temporary housing with rats and mould. We were moved about in different temporary housing for a long time. That's when my son was living with different family members and ended up in the hostel at 16." (Rhiant)*

**32.** Rhannodd rhiant arall rwystredigaeth gyda'r diffyg camau dilynol gan weithiwr cymdeithasol a fethodd â chyflawni addewid o roi cefnogaeth:

> *"We had a pretend social worker; it might as well be AI. If you look at the paperwork, we had one, but she wasn't active. She just didn't turn up. We found out she wasn't our social worker four months after she stopped coming. She promised so much with funding and support, like helping to sort out PIP, funding for work clothes cos he wants to go into construction, but she never did any of it." (Rhiant)*

**33.** Mynegodd y cyfranogwyr ymdeimlad o ddiffyg ymddiriedaeth tuag at y gwasanaethau cymdeithasol, gan ddisgrifio sut roedd cymorth annibynadwy neu ddiffyg cymorth wedi gwaethygu eu hamgylchiadau. Roeddent yn pwysleisio'r angen am gymorth hirdymor wedi'i deilwra sy'n cydnabod heriau unigryw pob unigolyn ac sy'n meithrin ymddiriedaeth dros amser. Mynegodd pobl ifanc a rhieni fel ei gilydd rwystredigaeth gyda'r hyn roeddent yn eu hystyried yn ymyriadau tocenistaidd neu dymor byr. Pwysleisiodd llawer fod meithrin ymddiriedaeth gyda theuluoedd sy'n agored i niwed yn broses raddol sy'n gofyn am ymrwymiad parhaus, a dadleuwyd y gall diffyg cymorth cyson a thosturiol wneud i deuluoedd deimlo eu bod yn cael eu hanwybyddu, ac yn amharod i ymgysylltu â'r gwasanaethau hyn.

**34.** Tynnodd y cyfranogwyr sylw hefyd at bwysigrwydd empathi a dilyniant mewn gwasanaethau cymorth. Roeddent yn galw am weithwyr cymdeithasol sy'n dangos diddordeb go iawn yn eu lles, yn hytrach na rhai sy'n bresennol am gyfnod byr yn unig neu'n ymddangos yn ddifater. Fel y nododd un person ifanc:

> *"It's not enough to just try to help a kid for a few weeks and then move on. You've got to put in the time to understand what's going on in their lives. Building that trust doesn't happen overnight."*

**35.** Mae'r profiadau hyn yn dangos pa mor angenrheidiol yw dulliau mwy personol, dibynadwy ac empathetig o fewn gwasanaethau cymorth. Drwy flaenoriaethu cefnogaeth barhaus ac unigol, gallai gwasanaethau cymdeithasol feithrin ymddiriedaeth a rhoi cymorth ystyrlon i'r rhai sy'n ceisio ymdopi â sefyllfaoedd anodd.

### Atebion

- Cynyddu rôl ragweithiol gwasanaethau cymdeithasol o ran cefnogi teuluoedd, yn enwedig y rhai sy'n delio â phroblem camddefnyddio sylweddau, heriau iechyd meddwl, neu anableddau.

- Canolbwyntio gwasanaethau cymdeithasol ar gefnogaeth barhaus, yn seiliedig ar ymddiriedaeth, yn hytrach nag ymyriadau tymor byr, i ddatblygu sylfaen gadarn ar gyfer pobl ifanc mewn perygl a'u teuluoedd.

## Yr heddlu a'r gyfraith

**36.** Mynegodd y cyfranogwyr farn gref ar rôl asiantaethau gorfodi'r gyfraith o ran mynd i'r afael â throseddau, yn enwedig o ran sut mae'r heddlu'n canolbwyntio eu hymdrechion ar bobl ifanc yn hytrach na'r unigolion lefel uwch sy'n gyfrifol yn y pen draw am weithgareddau troseddol. Teimlai llawer fod y dull presennol yn rhoi pwyslais anghywir ar chwaraewyr llai, fel plant neu bobl ifanc, yn hytrach na'r rhai ar y brig sy'n rheoli gweithrediadau o bell. Fel yr eglurodd un cyfranogwr,

> *"Police need to go after the right people and not the kids... all it takes is a phone to control the whole operation from one place. They'll go to the kids to try and find the route and phone numbers or text messages. But that never leads to nothing."*

**37.** Trafododd llawer sut mae gangiau yn defnyddio pobl ifanc yn strategol i gludo arian neu gyffuriau, gan wybod bod asiantaethau gorfodi'r gyfraith yn aml

yn targedu'r unigolion lefel is hyn. Drwy ganolbwyntio ar blant sy'n agored i niwed, mae risg y gallai'r heddlu eu rhoi mewn mwy o berygl gan y rhwydweithiau troseddol y maent yn eu gwasanaethu ac asiantaethau gorfodi'r gyfraith eu hunain. Esboniodd cyfranogwr arall effaith y pwysau hyn, gan ddweud:

> *"The police are taking the wrong approach. Going after the kids and getting the kids scared isn't really gonna do much... policing that way can put a kid in danger."*

**38.** Roedd y cyfranogwyr o blaid newid strategaethau plismona, gan awgrymu bod angen i swyddogion fuddsoddi amser i ddeall cymunedau lleol a chanolbwyntio ar y rhai sydd mewn gwirionedd yn rheoli gweithgareddau troseddol. Mynegwyd rhwystredigaeth ganddynt gydag aneffeithlonrwydd y system gyfreithiol, gan nodi bod llawer o droseddwyr lefel uchel yn parhau i osgoi cyfiawnder. Fel y dywedodd un cyfranogwr, '*Mae 'na enwau mawr ddylai fod yn y carchar... Ond 'dyw'r gyfraith ddim yn gweithio fel yna, nid mater syml o'u rhoi nhw yn y carchar yw hi,*" gan bwysleisio'r bwlch canfyddedig rhwng y broses gyfreithiol a mesurau effeithiol i atal troseddu.

**39.** Disgrifiodd cyfranogwyr hefyd sut y gall rhyngweithio ag asiantaethau gorfodi'r gyfraith yn aml fod yn brofiad caled sy'n dad-ddynoli, gan waethygu eu diffyg ymddiriedaeth. Rhannodd un person ifanc ddigwyddiad trawmatig a ddigwyddodd pan oedd ond yn 11 oed:

> *"There was an incident when I was 11. I kicked off and saw red. I was pinned down by six police officers, one on each limb and two on my shoulders. They stripped me naked in the police van to search me and then sectioned me in a mental hospital for adults cos they did not know what to do with me. It was humiliating."*

**40.** Roedd profiadau o'r fath nid yn unig yn eu gadael yn teimlo cywilydd ond hefyd yn atgyfnerthu teimladau o fod yn agored i niwed, gan eu bod yn gweld nad oedd asiantaethau gorfodi'r gyfraith yn barod i reoli eu hanghenion mewn modd tosturiol neu briodol ar gyfer eu hoedran.

**41.** Argymhellodd y cyfranogwyr fentrau mewn ysgolion i gyflwyno plant i asiantaethau gorfodi'r gyfraith lleol yn gynnar yn eu bywydau, gan obeithio y gallai ymdrechion o'r fath helpu i bontio'r bwlch ymddiriedaeth rhwng yr heddlu a'r gymuned. Mae'r adborth hwn yn amlygu'r angen am ddull gweithredu i asiantaethau gorfodi'r gyfraith sydd wedi'i dargedu'n well, sy'n canolbwyntio'n

fwy ar y gymuned—un sy’n blaenoriaethu troseddwyr lefel uchel ac yn meithrin dull cydweithredol â phobl ifanc, yn hytrach na’u troseddoli.

### Atebion

- Sicrhau bod ymdrechion asiantaethau gorfodi'r gyfraith yn blaenoriaethu troseddwyr lefel uchel mewn gweithrediadau troseddol yn hytrach na phobl ifanc sy’n agored i niwed ac sy’n cymryd rhan ar lefelau is.

- Cryfhau cysylltiadau rhwng yr heddlu a chymunedau i feithrin ymddiriedaeth a chydweithio’n well â phobl ifanc.

- Atal pobl ifanc sy’n agored i niwed rhag cael eu troseddoli drwy hyrwyddo dull cefnogol a chydymdeimladol o orfodi'r gyfraith.

## Gadael

**42.** Roedd yr her o adael ffordd o fyw droseddol yn thema amlwg ymhlith y cyfranogwyr, a ddisgrifiodd rwystrau sylweddol o ran torri’n rhydd a dechrau o’r newydd. Nodwyd bod gadael y ffordd honno o fyw yn aml yn gofyn am fesurau mawr, fel symud i ffwrdd, er mwyn sicrhau diogelwch ac i dorri cysylltiadau â dylanwadau negyddol. Fodd bynnag, hyd yn oed gyda phellter corfforol, gall ofn y byddent yn dial ynghyd â diffyg ymddiriedaeth barhau. Nododd un cyfranogwr:

> *“It’s hard to get out because you’re known and you’ve got a history... You’ve got to safeguard yourself even going around wearing a stab-proof vest. Things should be put in place to make it easier for a person of such high status to get out.”*

**43.** Pwysleisiodd y cyfranogwyr y gall deimlo’n amhosibl dianc rhag y cylch troseddu heb gefnogaeth ddibynadwy. Nodwyd mai ailgartrefu yw un o'r ffyrdd mwyaf effeithiol o helpu pobl ifanc i ddianc rhag yr amgylcheddau hyn. Soniodd llawer am bwysigrwydd cael eu symud o’r ardal gyfagos lle’r oeddent yn cymryd rhan mewn gweithgarwch troseddol, gan egluro pe baent yn aros yn eu cymdogaethau gwreiddiol y byddai risg gyson o gael eu tynnu’n ôl i mewn neu eu targedu gan hen gyfeillion. Nododd un unigolyn:

> *“I’ve been rehomed and it was one of the primary reasons I was able to get out... nobody will ever be able to get out of it as long as they’re living in that circle and everyone knows where they live because they’ll live in constant fear.”*

**44.** Gwnaethant hefyd dynnu sylw at yr angen am gymorth cyson, hirdymor i helpu'r rhai sy'n ceisio gadael ffordd droseddol o fyw. Mynegodd y cyfranogwyr rwystredigaeth gyda gweithwyr cymdeithasol a gwasanaethau cymorth eraill sy'n aml yn methu â meithrin ymddiriedaeth neu roi cymorth parhaus. Eglurodd un cyfranogwr,

> *"Kids need special help to get out. Social workers are useless; they don't care… it will take a lot to get some kids out cos they're in so deep it's dangerous if they try and leave."*

**45.** Disgrifiodd llawer yr anawsterau o ran symud ymlaen pan mae cofnod troseddol yn parhau i effeithio arnynt. Eglurodd un cyfranogwr sut mae ei weithredoedd yn y gorffennol wedi dod yn ffactor sy'n ei rwystro rhag cael swydd, er gwaethaf ei ymdrechion i newid:

> *"I was in and out of cells when I was younger. Cos I've been in trouble with the police, on paper I'm seen as a risk. I can take control of my emotions now. I'm trying to get a job, I got interviews but I just can't get one. After one interview they told me they couldn't take me on because of my criminal record."*

**46.** Mae'r sylwadau hyn yn dangos pa mor gymhleth yw dianc rhag ffordd droseddol o fyw, gan ddangos bod ymyrraeth lwyddiannus yn gofyn am fesurau personol, cyson, ac weithiau sylweddol, fel adleoli. Pwysleisiodd y cyfranogwyr fod llawer o bobl ifanc yn teimlo nad oes ganddynt unman i droi heb system gymorth amyneddgar a deallgar, gan bwysleisio'r angen am ddull tosturiol a hirdymor o roi cymorth yn y cyfnodau pontio hyn.

### Atebion

- Gweithredu strategaethau ailgartrefu ac adleoli i helpu pobl ifanc sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau troseddol i ddianc rhag dylanwadau negyddol.

- Rhoi cymorth cyson, hirdymor sy'n meithrin ymddiriedaeth ac yn mynd i'r afael â phryderon diogelwch parhaus y rhai sy'n gadael ffyrdd troseddol o fyw.

- Hwyluso ceisiadau i ddileu cofnodion troseddol lle bo'n briodol i ddileu rhwystrau rhag cyflogaeth gyfreithlon.

# Atodiad 1: Atebion

Yn yr adran hon, rydym yn cyflwyno casgliad o syniadau a awgrymwyd gan gyfranogwyr yn ystod y sesiynau ymgysylltu. Mae'r syniadau hyn yn cynrychioli safbwyntiau amrywiol er mwyn ceisio gwella'r sefyllfa sydd ohoni.

**47.** Cynigiwyd y syniadau canlynol gan gyfranogwyr yn ystod trafodaethau fel llwybrau posibl tuag at newid cadarnhaol, ac fe'u nodir yma i sbarduno rafodaeth ac ystyriaeth bellach.

## Ysgol

1. Lleihau'r ddibyniaeth ar arferion fel amserlenni llai, a allai gadael pobl ifanc yn fwy agored i risgiau allanol.

2. Hyfforddi staff ysgol i adnabod ac ymateb yn effeithiol i arwyddion o gamfanteisio, gan alluogi ymyriadau amserol a phriodol.

## Gwasanaethau cymdeithasol

3. Cynyddu rôl ragweithiol gwasanaethau cymdeithasol o ran cefnogi teuluoedd, yn enwedig y rhai sy'n delio â phroblem camddefnyddio sylweddau, heriau iechyd meddwl, neu anableddau.

4. Canolbwyntio gwasanaethau cymdeithasol ar gefnogaeth barhaus, yn seiliedig ar ymddiriedaeth, yn hytrach nag ymyriadau tymor byr, i ddatblygu sylfaen gadarn ar gyfer pobl ifanc mewn perygl a'u teuluoedd.

## Plismona

5. Sicrhau bod ymdrechion asiantaethau gorfodi'r gyfraith yn blaenoriaethu troseddwyr lefel uchel mewn gweithrediadau troseddol yn hytrach na phobl ifanc sy'n agored i niwed ac sy'n cymryd rhan ar lefelau is.

6. Cryfhau cysylltiadau rhwng yr heddlu a chymunedau i feithrin ymddiriedaeth a chydweithio'n well â phobl ifanc.

7. Atal pobl ifanc sy’n agored i niwed rhag cael eu troseddoli drwy hyrwyddo dull cefnogol a chydymdeimladol o orfodi'r gyfraith.

## Gadael

8. Gweithredu strategaethau ailgartrefu ac adleoli i helpu pobl ifanc sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau troseddol i ddianc rhag dylanwadau negyddol.

9. Rhoi cymorth cyson, hirdymor sy'n meithrin ymddiriedaeth ac yn mynd i'r afael â phryderon diogelwch parhaus y rhai sy'n gadael ffyrdd troseddol o fyw.

10. Hwyluso ceisiadau i ddileu cofnodion troseddol lle bo'n briodol i ddileu rhwystrau rhag cyflogaeth gyfreithlon.

# Atodiad 2: Cwestiynau cyfweliad

## Roedd y cwestiynau cyfweliad canlynol yn ganllaw hyblyg i'r cyfwelydd ac ni ofynnwyd pob un ohonynt i bob cyfranogwr.

**48.** Roedd y cyfweliadau yn cael eu harwain gan gyfranogwyr, gan ganiatáu i'r sgwrs lifo'n organig; ni chyflwynwyd cwestiynau mewn trefn benodol nac wedi'u geirio mewn ffordd benodol ond fe'u defnyddiwyd i hwyluso trafodaeth yn seiliedig ar ymatebion ac anghenion y cyfranogwyr.

Grymuso a chefnogaeth i oroeswyr

a. Mae'n bwysig i oroeswyr deimlo eu bod yn cael eu credu a'u cefnogi. Ydych chi'n meddwl bod hyn yn digwydd ac os na, beth sydd angen ei wneud?

b. Beth ydych chi'n meddwl y gellid ei wneud i greu mannau diogel lle gall goroeswyr rannu eu straeon heb gael eu barnu?

c. A yw'r cwnsela a'r cymorth iechyd meddwl sydd ar gael i helpu rhywun i wella yn gweithio a sut y gellir ei wella?

Gofal sy'n ystyriol o drawma:

d. Pa mor dda y mae gwasanaethau ar hyn o bryd yn deall trawma wrth helpu goroeswyr i wella? Beth allent ei wneud yn well i ddarparu cymorth mwy effeithiol?

e. Beth sy'n gwneud i rywle deimlo'n ddiogel ac yn gefnogol i oroeswyr ar hyn o bryd? Pa newidiadau allai wneud y mannau hyn hyd yn oed yn well i oroeswyr deimlo eu bod yn cael eu clywed a'u parchu?

Addysg ac atal:

f. Pa mor dda y mae plant yn cael eu haddysgu ar hyn o bryd am eu hawliau a'u ffiniau personol? Beth ellid ei wella i fod yn fwy effeithiol o ran atal camfanteisio?

g. Sut mae ymwybyddiaeth o gamfanteisio yn cael ei godi mewn ysgolion a chymunedau ar hyn o bryd? Beth arall y gellir ei wneud i wella hyn?

h. Beth mae rhieni a gofalwyr yn ei ddysgu ar hyn o bryd ynghylch sylwi ar arwyddion o gam-drin? Sut y gellid gwella'r addysg hon i'w helpu i adnabod yr arwyddion yn gynharach?

Ymyrraeth gynnar a chymorth i deuluoedd:

i. Pa mor llwyddiannus y mae ysgolion a darparwyr gofal iechyd o ran adnabod plant sydd mewn perygl o ddioddef camfanteisio heddiw? Beth ellir ei wneud i wella o ran eu canfod yn gynnar?

j. Pa fathau o gymorth (ar gyfer tlodi neu ddibyniaeth er enghraifft) y mae teuluoedd yn ei chael hi'n anodd eu cael ar hyn o bryd? Sut y gellid gwella’r cymorth hwn er mwyn gallu atal camfanteisio yn well?

Gwella diogelwch ar-lein:

k. A yw’r gwersi diogelwch ar-lein presennol yn gweithio’n dda i amddiffyn pobl ifanc rhag meithrin perthynas amhriodol a chamfanteisio ar-lein? Sut y gellir eu gwella?

l. Pa gamau ychwanegol y gellid eu cymryd i amddiffyn pobl ifanc yn well rhag peryglon ar-lein?

Cynnwys y gymuned yn y gwaith o atal:

m. I ba raddau y mae cymunedau’n cymryd rhan yn y gwaith o atal camfanteisio ar hyn o bryd? Beth allai cymunedau ei wneud yn well i helpu i atal camfanteisio?

n. Beth mae athrawon ac arweinwyr cymunedol yn ei wybod ar hyn o bryd ynghylch sylwi ar arwyddion o gamfanteisio? Beth arall sydd angen iddynt ei ddysgu i weithredu'n fwy effeithiol?

Newidiadau cyfreithiol ac atebolrwydd:

o. Pa mor effeithiol yw'r cyfreithiau presennol o ran amddiffyn pobl rhag camfanteisio? Pa newidiadau penodol ydych chi'n meddwl fyddai'n eu gwella?

p. Pa mor dda y mae'r heddlu a'r system gyfiawnder yn gorfodi'r cyfreithiau hyn ar hyn o bryd? Pa welliannau y gellid eu gwneud i sicrhau eu bod yn gweithio’n well?

q. Beth sy’n cael ei wneud ar hyn o bryd i ddal pobl yn atebol am gamfanteisio? Beth arall y gellir ei wneud i sicrhau bod y rhai sy'n gyfrifol yn wynebu canlyniadau priodol?

Dod o hyd i gymorth:

r. Pan oedd angen help arnoch, pa wybodaeth oedd yno, a sut daethoch i wybod amdani?

i. Sut clywsoch chi am y cymorth neu'r gwasanaeth am y tro cyntaf?

ii. A wnaeth rhywun ddweud wrthoch chi amdano? Pwy?

iii. A wnaethoch chi chwilio am help eich hun, neu a oeddech chi'n gwybod amdano eisoes?

s. Pa heriau wnaethoch chi eu hwynebu o ran cael cymorth?

iv. Sut deimlad oedd hi pan gawsoch chi gymorth am y tro cyntaf?

v. Ydych chi'n teimlo'r un ffordd amdano nawr?

vi. A oedd unrhyw broblemau neu anawsterau a oedd yn ei gwneud yn anodd cael cymorth?

t. Beth ydych chi'n meddwl fyddai'n atal camfanteisio troseddol ac yn helpu pobl ifanc sy'n mynd ar goll?

vii. Beth fyddai wedi eich helpu chi fwy pan oeddech chi'n mynd drwy hyn?